# Cynnig i Leihau Niferoedd y Disgyblion sy’n cael eu Derbyn a gyhoeddir yn

## Ysgol Clawdd Wat, Ysgol Acton ac Ysgol Lôn Barcas

Dogfen Ymgynghori

(Fersiwn i Blant)



WCBC/ER821/03102024


wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am bob ysgol yn ein hardal. Rydym ni'n rhan o dîm sy'n gweithio i'r Cyngor i gefnogi'r ysgolion hyn.

# Ein Nodau:

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion Cymraeg, ysgolion Saesneg neu ysgolion Ffydd ardderchog.
- Bod ag adeiladau diogel a chryf.
- Gwneud yn siŵr fod arian ar gyfer plant yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn a gwrando ar safbwyntiau pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.



## Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Rydym yn ystyried lleihau nifer y plant sy'n gallu mynychu'r ysgolion, fel bod yna lai o blant yn Ysgol Acton, Ysgol Clawdd Wat ac Ysgol Lôn Barcas.

Mae hyn oherwydd bod llefydd gwag yn yr ysgolion ar hyn o bryd.

## Beth yw ein syniad ni?

O ran Ysgol Gynradd Acton, Ysgol Gynradd Lôn Barcas ac Ysgol Gynradd Clawdd Wat, rydym yn ystyried lleihau nifer y plant sy'n gallu eu mynychu.

Mae maint yr ysgolion ar hyn o bryd yn faint da. Mae'n ymddangos y byddai mwy o lefydd yn y dyfodol.



# Beth allai newid?

Ni fydd unrhyw newidiadau i'r plant sy'n mynychu'r ysgolion ar hyn o bryd. Os wyt ti yn yr ysgol yn barod, byddi di'n aros yn yr ysgol.

Bydd maint y dosbarthiadau yn llai nag ydyn nhw ar hyn o bryd.

# Pam rydym yn meddwl bod angen i bethau newid?


Yn y dyfodol, bydd llai o blant yn mynychu'r ysgolion a bydd yna ormod o lefydd gwag.



# Pam rydym ni'n gofyn am dy farn?

Rydym am ofyn i ti beth yw dy farn am ein syniad.

# Pa mor hir fydd pethau'n cymryd?



Pobl yn dweud eu barn wrthym ni:

**Rhagfyr 2024 - Ionawr 2025**

Cytuno ar beth rydym ni'n ei wneud:

**Gorffennaf 2025**

Agor yr ysgol i lai o ddisgyblion:

**Medi 2026**


# Eisiau gwybod mwy?

Rydym ni wedi gwneud hwn yn fyr ac mewn ffordd y byddi di'n ei ddeall, gobeithio. Rydym ni wedi anfon dogfen hirach at dy rieni, dy athrawon ac at bobl eraill.


Mae'r dogfennau hirach i'w gweld ar ein gwefan drwy chwilio am 'Ymgynghoriad Ysgolion' ar wrecsam.gov.uk neu drwy sganio'r Cod QR.

# Beth wyt ti'n ei feddwl?

Dyweda wrthym ni **os wyt ti'n deall** beth yw ein syniad drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.



Dw i'n deall




Dydw i ddim yn siŵr os ydw i'n deall




Dydw i ddim yn deall

Dyweda wrthym ni **sut wyt ti'n teimlo** am ein syniad drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.



Dw i'n ei hoffi



Dydw i ddim yn gwybod os ydw i'n ei hoffi



Dydw i ddim yn ei hoffi

# Oes yna unrhyw beth arall yr hoffet ti ei ddweud?

Cofia ddweud wrthym ni...

- Oes yna unrhyw beth arall yr hoffet ei weld yn hytrach na'r hyn rydym ni yn ei gynllunio?
- Hoffet ti ddweud unrhyw beth arall?

Anfona dy sylwadau atom ni erbyn **24 Ionawr 2025**

Ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth y byddi'n ei anfon atom wedi hynny.


## E-bost

Anfona dy sylwadau atom ni dros e-bost:

Actonprimaryschoolconsultation@wrexham.gov.uk

Barkerslaneconsultation@wrexham.gov.uk

Watsdykeconsultation@wrexham.gov.uk



## Ysgrifenna atom ni

Anfona dy sylwadau drwy ysgrifennu atom ni:

Addysg, Adeiladau'r Goron,
31 Stryt Caer,
Wrecsam, LL13 8BG

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn casglu'r holl atebion ac yn rhannu'r prif sylwadau â phawb.

**Ebrill 2025**

Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod er mwyn penderfynu beth i'w wneud.

**Gorffennaf 2025**

Byddwn yn rhoi gwybod i bawb beth yw'r penderfyniad.

**Gorffennaf 2025**

